**COFNODION Y CYFARFOD**

**Dyddiad:** 11 Rhagfyr 2001
**Amser:** 9am
**Lleoliad:** Ystafell A3.13

**Yn bresennol:**
John Marek, y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Andrew Davies, y Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
Jonathan Morgan, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr
Peter Black, y Democratiaid Rhyddfrydol

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol
Swyddfa'r Llywydd
Chris Reading, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau
(eitem 6 ar yr agenda)
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Uned Fusnes y Cynulliad
Adrian Green, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, YP/Y Dirprwy Lywydd
Alun Jenkins, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol
(eitem 4 ar yr agenda)

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Croesawodd y Dirprwy Lywydd Chris Reading a oedd yn bresennol ar ran Marie Knox.

## 2. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol

**(i) 27 Tachwedd 2001 - BC346-01 (Terfynol)**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf derfynol. Am nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu'n barod i'w cyhoeddi.
**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**(ii) 4 Rhagfyr 2001 - BC355-01 (Drafft)**

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar ffurf ddrafft. Awgrymwyd rhai mân-ddiwygiadau a gâi eu hymgorffori yn y fersiwn derfynol a fyddai'n cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.
**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

## 3. Materion sy'n codi (4 Rhagfyr 2001 - BC355-01)

3.1 **Paragraff 3.1** Ar ôl trafod, cytunodd y Pwyllgor y dylid cael toriad o dair wythnos dros y Nadolig yn 2002 fel a amlinellwyd yn Opsiwn 1 BC306-01. Cytunwyd y dylid cyhoeddi hyn cyn gynted â phosibl.

**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

3.2 Dywedodd y Dirprwy Lywydd y dylid rhoi ystyriaeth i drefniadau toriad y Pasg 2003 ynghyd â'r cyfnod cyn etholiadau'r Cynulliad ar 1 Mai 2003 yn fuan. Awgrymodd y byddai o leiaf bedair wythnos yn ddymunol. Dywedodd Paul Silk na ddylai'r Cynulliad fod yn eistedd yn ystod y prif gyfnod ymgyrchu. Dywedodd y Trefnydd y byddai'n trafod y mater hwn gyda'i gydweithwyr.
**Gweithredu: Y Trefnydd**

3.3 **Paragraff 3.2** Dywedodd Jocelyn Davies ei bod wedi derbyn llythyr gan y Trefnydd ynghylch ei chais am ddadl ar is-ddeddfwriaeth ar faterion datganoledig.

3.4 **Paragraff 4.4** Dywedodd Marion Stapleton fod y Trefnydd wedi ysgrifennu at Reolwyr Busnes ynghylch y rhesymau dros ddefnyddio'r weithdrefn Weithredol ar gyfer Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2001 a Rheoliadau Hawliau Cadw (Trosglwyddo Cyfrifoldebau i'r Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2001. Dywedodd y Dirprwy Lywydd nad oedd wedi gweld llythyr yn rhoi manylion y rhesymau dros ddefnyddio'r weithdrefn Weithredol yn achos y Rheoliadau Grant Menter Ffermydd a Grant Gwella Ffermydd (Cymru) a ddaeth i rym ar 30 Tachwedd. Roedd y Cabinet wedi cytuno i ddefnyddio'r weithdrefn Weithredol ar gyfer y rheoliadau hyn ym mis Ebrill. Dywedodd Marion Stapleton y byddai'r Trefnydd yn ysgrifennu at Reolwyr Busnes yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, ynghylch y rheoliadau hyn. Gofynnodd y Dirprwy Lywydd p'un a fyddai ef hefyd yn derbyn copi o'r llythyr yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Busnes. Dywedodd y Trefnydd y byddai'n ystyried y cais.

3.5 Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod gan y Pwyllgor Busnes rôl i sicrhau bod rhesymau digonol dros ddefnyddio'r weithdrefn Weithredol gan fod y Pwyllgor, fel rheol, yn rhoi ystyriaeth i orchmynion. Dywedodd y Trefnydd nad oedd unrhyw ddarpariaeth yn y Rheolau Sefydlog i'r Pwyllgor archwilio'r defnydd a wneir o'r weithdrefn Weithredol. Gallai Aelodau gyflwyno cynnig i ddiddymu gorchymyn a wnaed dan y weithdrefn Weithredol. Dywedodd Jocelyn Davies eu bod wedi ceisio gwneud hyn unwaith, ac i'r Llywodraeth fethu â neilltuo amser ar gyfer dadl ar yr achlysur hwnnw. Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod angen i'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod y weithdrefn Weithredol yn cael ei defnyddio'n briodol er mwyn diogelu buddiannau Aelodau a chaniatáu archwiliad effeithiol. Dywedodd y Trefnydd nad oedd y weithdrefn Weithredol ond yn cael ei defnyddio pan oedd angen.

3.6 **Paragraff 6.2** Dywedodd y Trefnydd fod y Gweinidog Cyllid wedi tynnu ei chais i symud cyfarfodydd 30 Ionawr a 6 Mawrth 2002 y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn ôl.

## 4. Is-ddeddfwriaeth

- Rheoliadau Addysg (y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Diwygio) (Cymru) 2002 (BC357-01).

4.1 Rhoddodd y Pwyllgor Busnes ystyriaeth i bapur BC357-01 a oedd yn rhoi cyngor gan Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ar ymdrin â'r rheoliadau drafft uchod.

4.2 Dywedodd y Dirprwy Lywydd ei fod yn falch o weld bod y ddalen flaen yn nodi'r dyddiad y gosodwyd y gorchymyn ar y fewnrwyd. Roedd yn edrych ymlaen at gael gwybodaeth, yn y Flwyddyn Newydd, am gyfleoedd i ymgynghori â phwyllgorau pwnc cyn i'r Pwyllgor Busnes roi ystyriaeth i faterion, ynghyd ag argymhelliad ynghylch a oedd yn ddymunol i ddeddfwriaeth gael ei hystyried gan bwyllgor pwnc ar ôl iddi gael ei hystyried gan y Pwyllgor Busnes.

4.3 Dywedodd aelodau o'r Pwyllgor Busnes wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon â'r cynnig i beidio ag anfon y gorchymyn drafft at bwyllgor pwnc a chytunwyd y dylai ddilyn y weithdrefn gyflym.
**Yn dilyn hynny, penderfynodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio'r gorchymyn i bwyllgor pwnc.**

## 5. Cyngor i'r Cynulliad ar weithdrefnau

Dim

## 6. Pwyllgorau

- Cais gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes (BC358-01)

6.1 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gais y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes i gynnal cyfarfod ychwanegol brynhawn Iau 7 Chwefror 2002, a chytunwyd i'r cais.

## 7. Busnes ar y gweill

(i) Busnes yr wythnos hon (BC359-01)

7.1 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i bapur BC359-01 a oedd yn disgrifio'r busnes y cytunwyd arno ar gyfer y Cynulliad yr wythnos honno.

7.2 Dywedodd y Trefnydd, yn ogystal â'r busnes arfaethedig, y byddai'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn gwneud datganiad ddydd Iau 13 Rhagfyr ar y Bartneriaeth Breifat a Chyhoeddus a'r Fenter Cyllid Preifat.

7.3 Ailadroddodd Jonathan Morgan ei gais blaenorol am ddatganiad gan Brif Weinidog Cymru ar y portffolio Datblygu Economaidd. Dywedodd y Trefnydd nad oedd unrhyw beth i'w ychwanegu at yr hyn yr oedd y Prif Weinidog eisoes wedi'i ddweud yn y Cyfarfod Llawn.

(ii) Datganiad Busnes Drafft (BC360-01)

7.4 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Datganiad Busnes Drafft (BC360-01).

7.5 Dywedodd y Trefnydd fod nifer o newidiadau i’r Datganiad Busnes Drafft. Ddydd Mawrth 8 Ionawr 2002, byddai cynnig yn cael ei gyflwyno i ethol pwyllgor penderfyniadau cynllunio. Byddai nifer o ddatganiadau hefyd yn cael eu gwneud yn ogystal â newidiadau eraill. Dywedodd y byddai manylion llawn y newidiadau i’r busnes yn cael eu rhoi cyn gynted â phosibl. Dywedodd y Dirprwy Lywydd ei fod yn poeni nad oedd yr holl wybodaeth am y cyfarfod cyntaf ar ôl y toriad ar gael yn y Datganiad Busnes Drafft. Roedd angen i’r Aelodau allu paratoi. Dywedodd y Trefnydd y byddai’n rhoi cymaint o rybudd i Aelodau â phosibl.

7.6 Dywedodd Jocelyn Davies fod Pauline Jarman wedi bod yn llwyddiannus yn y bleidlais i gyflwyno is-ddeddfwriaeth dan Reol Sefydlog 29. Roedd yn rhaid cyflwyno’r cynnig cyn diwedd y tymor. Fodd bynnag, nid oedd eto wedi derbyn y wybodaeth gan Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol a fyddai’n galluogi’r llyfrgell i’w helpu i baratoi’r dadansoddiad cost a budd. Roedd yn rhaid cyflwyno hwn bum diwrnod cyn i’r cynnig gael ei drafod. Gofynnodd am ragor o amser i baratoi’r dadansoddiad hwn. Dywedodd Marion Stapleton ei bod yn amheus ganddi p’un a oedd hyn yn bosibl o fewn yr amserlenni a fyddai’n berthnasol i’r ddadl.

7.7 Gofynnodd Jonathan Morgan p’un a gâi amser ei neilltuo i drafod cynnig David Melding ar gyhoeddi lwfansau Aelodau. Dywedodd y Trefnydd fod Pwyllgor y Ty wrthi’n ystyried y mater. Dywedodd y Dirprwy Lywydd fod Pwyllgor y Ty o’r farn mai mater i Aelodau unigol benderfynu arno oedd hwn.

7.8 Cyngor y Pwyllgor i’r Trefnydd ar ei ddatganiad arfaethedig ynghylch trefn busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau’n dechrau ddydd Mawrth 8 Ionawr, dydd Mawrth 15 Ionawr a dydd Mawrth 22 Ionawr 2002 oedd y dylai fynd rhagddo fel a amlinellwyd.

**8. Materion a gyfeiriwyd o’r Cyfarfod Llawn**

**9.  Diwygio’r Rheolau Sefydlog**

**10. Dyfarniadau’r Llywydd**

**11. Unrhyw fater arall**

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**